

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Tachwedd	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
2016	0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 29)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-717 Establish Statutory Public Rights of Access to Land and Water for Recreational and Other Purposes  
(Tudalennau 30 – 41)

2.2 P-05-720 Hirwaun and Penderyn Community Council Petition for the Installation of Fibre Optic Broadband  
(Tudalennau 42 – 47)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

#### Gyllid a Llywodraeth Leol

3.1 P-04-436 Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru  
(Tudalennau 48 – 49)

#### Iechyd

3.2 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru  
(Tudalennau 50 – 52)

3.3 P-04-659 Talwch Gostau Teithio Llawn Myfyrwyr Nyrso  
(Tudalennau 53 – 56)

3.4 P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc  
(Tudalennau 57 – 67)



## **Economi a'r Seilwaith**

### **3.5 P-04-556 Na i gau Cyffordd 41**

(Tudalennau 68 – 71)

### **3.6 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075**

(Tudalennau 72 – 73)

### **3.7 P-04-670 Ffilm am Owain Glyndwr**

(Tudalennau 74 – 75)

### **3.8 P-04-688 Gorsaf Bêr Tata Steel ym Mhort Talbot**

(Tudalennau 76 – 78)

### **3.9 P-05-709 Cylchffordd Cymru**

(Tudalennau 79 – 81)

## **Amgylchedd a Materion Gwledig**

### **3.10 P-04-648 Ceisiadau cynllunio nwy ac olew anghonfensiynol**

(Tudalennau 82 – 84)

### **3.11 P-05-705 Annog Pwyllgorau Cynllunio i Sicrhau bod Penderfyniadau ar**

**Faterion Cynllunio yn Rhoi sylw Dyledus i'r Effaith ar Grwpiau Ymunedol a Sefydliadau Gwirfoddol neu i'r Posibilrwydd y Bydd y Grwpiau a'r Sefydliadau hyn yn Cau**

(Tudalennau 85 – 86)

## **Addysg**

### **3.12 P-04-673 Galw ar bob Plaid Wleidyddol Gymreig i Gynnig Popeth yn Ddwyeithog**

(Tudalennau 87 – 88)

### **3.13 P-04-679 Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

(Tudalennau 89 – 91)

## **Gymunedau a Phlant**

### **3.14 P-04-675 Talwch Gost y Dreth Ystafell Wely yng Nghymru**

(Tudalennau 92 – 96)

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Item 5.

## **5 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 97 – 101)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

## **P-05-716 – Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elin Tuckwood ar ôl casglu 637 llofnod ar wefan e- ddeiseb amgen.

### **Geiriad y ddeiseb**

Yma yn y DU mae gennym hawl i addysg am ddim, felly oni ddylem gael cludiant diogel, am ddim yn ôl ac ymlaen i'r ysgol? Yr ateb i hyn yw 'dylem'. Am nifer o flynyddoedd mae Trenau Arriva Cymru wedi bod yn darparu cludiant am ddim ar y trenau i ddisgyblion Ysgol Gyfun Treorci, ac mae hyn yn fantais enfawr i'r rhai sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, mae hyn wedi newid yn ddiweddar ac maent bellach wedi galw ar bob disgybl i brynu tocyn trêen i fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ac mae prisiau'r rhain yn amrywio rhwng £19.95 a £32.90 fesul tymor ysgol. Gall hyn fod yn gostus iawn i rai rhieni sydd â mwy nag 1 plentyn, ac nid yw'r ysgol yn gallu helpu rhieni gyda'r arian hwn oherwydd bod y tocynnau yn cael eu darparu drwy gwmni Trenau Arriva Cymru. Mae Trenau Arriva wedi dweud mai diogelwch yw'r rheswm am hyn, ond mae'r plant sydd â'r tocynnau trêen dynodedig o flaen rhwystr metal "amddiffynnol" yn agosach at ymyl y platfform, a'r plant nad oes ganddynt docynnau yn y man caeedig bach o fewn y rhwystr hwn, gan achosi mwy o berygl mewn gwirionedd oherwydd bod lle mor fach yn orlawn. Trwy gael cludiant am ddim ar y trenau unwaith eto bydd pob disgybl yn gallu cael cyfle teg i gael addysg a bydd yn gallu mynd ymlaen i wneud yr hyn y mae'n dymuno'i gyflawni mewn bywyd. Byddwn i gyd yn cael ein trin yn gyfartal ac ni fydd arian yn bryder mawr i neb..

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

# Deiseb: P-05-717 Sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol at ddibenion hamdden a dibenion eraill

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2016

Petitions Committee | 15 November 2016

## Briff ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-717

Teitl y ddeiseb: Sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol at ddibenion hamdden a dibenion eraill

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu Bil i sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol at ddibenion hamdden a dibenion eraill. Dylai'r Bil hwn ymgorffori hawliau a chyfrifoldebau mynediad ar gyfer y cyhoedd yn yr un ffordd ag y mae Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn annog defnydd cydweithredol o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden iach ac isel eu heffaith. Rhaid i'r Bil ymgorffori hawliau mordwyo cyhoeddus ar gyfer dŵr mewndirol, a chaniatáu mynediad at ddŵr ac ar hyd dŵr. Rhaid iddo gael gwared ar y diffyg eglurder cyfreithiol a'r cyfyngiadau sy'n gweithredu fel rhwystr i chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â'r gwaith o hyrwyddo Cymru fel lle sy'n croesawu gweithgareddau hamdden iach, twristiaeth a gweithgareddau anturus ar bob lefel o gyfranogiad a mwynhad.

## Cefndir

### Mynediad i dir yng Nghymru

Yn bennaf, hawliau tramwy, mynediad agored a mynediad caniatol yw hawliau mynediad i dir yng Nghymru. Mae hawliau mynediad yn Lloegr yn debyg iawn i rai Cymru. Mae hawliau mynediad yn llai cyfyngol yn yr Alban yn gymharol, ond yn fwy cyfyngol yng Ngogledd Iwerddon yn gymharol.

### *Hawliau tramwy*

Priffyrdd sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cyhoedd deithio arnynt yw hawliau tramwy. Yng Nghymru, mae tua 33,000 km o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae hawliau tramwy yn cynnwys:

- llwybrau troed – hawl tramwy ar droed yn unig;
- llwybrau ceffylau – ar gyfer cerddwyr, marchogion a beicwyr (y mae'n rhaid iddynt ildio i bobl ar droed neu ar gefn ceffyl);
- cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig – ar agor i gerddwyr, beicwyr, marchogion, cerbydau a dynnir gan geffylau a cherbydau modur; a
- chilffyrdd cyfyngedig – gall roi hawl i bob math o draffig ac eithrio cerbydau modur.

### *Mynediad agored*

Gellir cael mynediad i rai ardaloedd o dir heb orfod defnyddio llwybrau. Gelwir tir o'r math hwn yn 'dir mynediad'. Mae tir mynediad yn cynnwys tir agored (mynydd, gweundir, rhostir a thwyndir), tir comin cofrestredig ac ardaloedd o goedwigoedd cyhoeddus penodedig (lle mae perchnogion fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu mynediad am ddim). Mae pumed ran o Gymru wedi'i mapio fel 'tir mynediad'. Mae hyn yn cynnwys 360,000 hectar o dir agored a thir comin yn ogystal â 100,000 hectar o dir Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae rhai gweithgareddau na ellir, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ymgymryd â hwy ar dir mynediad. Gelwir y rhain yn 'gyfyngiadau cyffredinol'. Maent yn cynnwys marchogaeth ceffylau, beicio, pysgota, gwersylla, mynd ag anifeiliaid heblaw am gŵn ar y tir, gyrru cerbydau a chwaraeon dŵr.

### *Mynediad caniatool*

Gall rhai tîrfeddianwyr ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth. Gelwir hyn yn 'fynediad caniatool'. Gellir cyfyngu ar fynediad ar adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft i ddiogelu adar sy'n nythu ar y ddaear. Mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb gofal ar gyfer y rhai sy'n defnyddio mynediad caniatool ar eu tir.

Gall rhai tîrfeddianwyr ddod i gytundeb ag awdurdod cyhoeddus i ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir. Yn yr achosion hyn byddai telerau a chytundebau unrhyw gontract a lofnodwyd yn berthnasol. Un enghraifft o hyn yw [Glastir, sef cynllun amaeth-amgylchedd Llywodraeth Cymru](#), sy'n rhoi'r cyfle i dirfeddianwyr, yn gyfnewid am dâl, roi mynediad caniatool i dir na fyddai modd mynd iddo fel arall.

### *Deddfwriaeth*

Mae llawer o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n rheoli mynediad yng Nghymru (a Lloegr); *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* yw'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain.

O dan y Ddeddf, mae gan awdurdodau priffyrdd lleol gyfrifoldeb am ddiogelu a chynnal hawliau tramwy, cyhoeddi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, a mapio hawliau tramwy ar Fapiau a Datganiadau Diffiniol. Mae hefyd yn darparu hawl statudol i wneud cais i ddiddymu yn barhaol neu ddargyfeirio rhai hawliau tramwy cyhoeddus.

Hefyd, o dan y Ddeddf, cyflwynwyd hawl gyffredinol i'r cyhoedd gael mynediad ar droed i dir penodol, h.y. tir mynediad. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys mynediad caniataol.

### **Mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru**

**Nid yw hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys mynediad i ddŵr mewndirol.**

Mae mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru wedi bod yn fater cynhennus iawn yn y gorffennol gyda barn gref ar ddwy ochr y ddadl. Mae defnyddwyr dŵr hamdden, fel canŵ-wyr, o blaid deddfwriaeth i roi hawl i bobl lywio'r dyfroedd hyn. Yn gyffredinol, mae pysgotwyr a sefydliadau pysgota yn gwrthwynebu rhoi hawl mynediad cyffredinol i ddefnyddwyr dŵr hamdden.

Yn fras, yn ôl defnyddwyr hamdden, mae galw mawr am weithgareddau hamdden ar ddyfroedd mewndirol yng Nghymru a byddai cynyddu'r mynediad yn arwain at fwy o dwristiaeth a manteision economaidd. Mae grwpiau genweirio a physgota yn dadlau y gall defnyddio'r dŵr at ddibenion hamdden achosi niwed amgylcheddol i bysgodfeydd, a silfeydd rhywogaethau fel yr eog yn arbennig. Ar hyn o bryd, dadl y genweirwyr yw eu bod yn talu trwydded pysgota â gwialen a ffioedd eraill i bysgota yn yr afonydd, tra nad yw defnyddwyr hamdden yn talu dim ffioedd tuag at gostau cynnal a gwella afonydd.

Mae crynodeb o'r drafodaeth ar y materion yn adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad ar ei [Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru \(2010\) \(PDF 1379KB\)](#). Ymdrinnir â'r ymchwiliad yn fanylach yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn.

Mae rhai wedi dadlau bod hawliau mordwyo hanesyddol yn rhoi hawl mynediad cyffredinol i afonydd a llynnoedd di-lanw i ddefnyddwyr hamdden. Y farn gyffredin, fodd bynnag, yw nad oes gan bobl hawl gyffredinol o dan y gyfraith gyffredin i fordwyo dyfroedd di-lanw na llynnoedd mewndirol yng Nghymru a Lloegr. Yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad, er iddo ystyried y safbwyntiau ynglŷn â hawliau hanesyddol, daeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r casgliad:

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gysail barnwrol sy'n cadarnhau hyn, ac er bod hyn o ddiddordeb i ni wrth ystyried barn y tystion hyn ni allwn, at ddibenion ein hymchwiliad, seilio ein hargymhellion ar safbwynt ynglŷn â'r gyfraith sy'n groes i'r un a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu ei pholisi ar y mater, wedi mabwysiadu'r un safbwynt cyfreithiol.



Mae rhai afonydd yng Nghymru lle y caniateir mynediad at ddibenion hamdden eisoes, a hynny naill ai am resymau hanesyddol neu am fod cytundebau mynediad gwirfoddol wedi cael eu cytuno.

### Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003

*Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003* a [Chod Mynediad Awyr Agored yr Alban](#), sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mynediad awyr agored yn yr Alban. Daeth yr hawl statudol i fynediad sy'n gysylltiedig i rym yn 2005.

Mae Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) yn sefydlu hawliau mynediad statudol ar gyfer y cyhoedd i dir a dŵr mewndirol ar gyfer gweithgareddau hamdden ac addysg a gweithgareddau eraill. Mae'r hawliau'n benodol yn eithrio unrhyw fath o weithgarwch modur (oni bai ei fod ar gyfer mynediad i bobl anabl), hela, saethu a physgota.

Mae'r hawliau'n gymwys ledled yr Alban gan gynnwys ardaloedd trefol, brynau, tir amaethyddol, coedwigoedd, traethau, camlesi, llychau ac afonydd. Fodd bynnag, nid yw'r hawliau mynediad yn berthnasol o fewn adeiladau, strwythurau na'u hamgylchedd uniongyrchol, tai a gerddi, a thir ar gyfer cynydu (nid ystyrir fod glaswellt yn gwnw oni bai ei fod yn tyfu ar gyfer gwair/silwair), er y caniateir mynediad i ymylon caeau.

Mae pwyslais Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) ar reoli mynediad ar lefel leol gan roi pwerau i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (awdurdodau mynediad) i reoli mynediad yn eu hardal. Mae Deddf Diwygio Tir (yr Alban) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r Ddeddf yn nodi y gall awdurdodau mynediad eithrio ardal benodol o dir a/neu ddŵr mewndirol o hawliau mynediad dros dro drwy 'Orchymyn adran 11'.

Mae Deddf Diwygio Tir (yr Alban) yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i lunio cynllun ar gyfer system o lwybrau ('llwybrau craidd') sy'n ddigonol at y diben o roi mynediad rhesymol i'r cyhoedd yn eu hardal.

Mae rhagor o wybodaeth ar fynediad ym mhob un o wledydd y DU ar gael yng nghyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil: [Mynediad i gefn gwlad yn y DU: adolygiad o bolisi a deddfwriaeth cysylltiedig \(2014\) \(PDF 646KB\)](#)

### Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraethau blaenorol Cymru wedi mynegi cefnogaeth gyffredinol dros gynyddu mynediad i ddŵr mewndirol ar gyfer defnyddwyr hamdden ac, yn y gorffennol, mae [wedi cefnogi dull gwirfoddol \(PDF 158\)](#) yn hytrach nag un statudol. Roedd Cronfa Sblash Llywodraeth Cymru yn weithredol o 2009 tan 2014, gan ddarparu cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cytundebau mynediad gwirfoddol a chyfleusterau gwell i ddefnyddwyr dŵr hamdden, megis pwyntiau mynediad gwell i afonydd mewn lleoliadau priodol.

Cynhaliodd Llywodraeth flaenorol Cymru adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ynghylch mynediad a hamdden awyr agored , [gan gasglu](#):

- Ar dir, mae angen gwella ein rhwydwaith hawliau tramwy a gwneud y fframwaith deddfwriaethol cysylltiedig yn fwy effeithiol; ac
- Ar ddŵr, mae angen gweld cynnydd yn nifer y cytundebau mynediad gwirfoddol sy'n darparu ar gyfer ystod o weithgareddau hamdden.

Yn 2015, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyrdd o'r enw [Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol](#). Mae'r cynigion allweddol yn y Papur Gwyrdd yn cynnwys:

- Dileu cyfyngiadau ynghylch gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, cynnal llwybrau, a chreu, dargyfeirio a diddymu. Mae'r cynigion yn cynnwys dileu rhai o'r cyfyngiadau ar ystod y gweithgareddau y gellir eu cynnal ar lwybrau tramwy ac ar dir mynediad;
- Dull mwy caniataol i fynediad, gan gynnwys ymestyn y diffiniad o dir mynediad i gynnwys ardaloedd eraill fel coetiroedd, llynnoedd a chlogwyni arfordirol; a
- Gwella mynediad i ddŵr trwy gael mwy o gyfleoedd am fynediad hamdden cyfrifol i ddyfroedd mewndirol, yr arfordir a'r amgylchedd morol.

Cafodd yr ymgynghoriad 5,796 o ymatebion. Nododd y [crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad \(PDF 116KB\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu yr adeg honno a fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu.

Ysgrifennodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, at y Pwyllgor Deisebau ar 19 Hydref 2016. Yn ei llythyr, nodir bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn bod y system bresennol yn rhy gymhleth ac yn feichus.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd ei bod yn awyddus i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer mynediad awyr agored a'i bod yn fwriad ganddi ddatblygu cynigion i'r perwyl hwn, ac y byddai'r cwmpas a'r amserlen ar gyfer gwneud hyn yn cael eu nodi yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Pwyllgor Deisebau'r Trydydd Cynulliad 2009

Yn 2008, cyflwynwyd deiseb i'r Pwyllgor Deisebau yn galw ar i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i gynyddu **mynediad i ddŵr mewndirol** yn seiliedig ar y model a fabwysiadwyd gan yr Alban o dan Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban). Cytunodd y Pwyllgor Deisebau i gynnal ymchwiliad byr i'r mater ac adrodd ym mis Mawrth 2009.

Canfu'r [Pwyllgor \(PDF 227KB\)](#) fod y sefyllfa yng Nghymru yn 'anghynladwy ac yn anymarferol' a bod llawer o 'gymhlethdod a dryswch' ynghylch yr hawliau niferus ac

amrywiol o ran dŵr mewndirol. Daeth i'r casgliad bod angen deddfwriaeth newydd ar fynediad i ddŵr mewndirol ac y byddai Deddf Diwygio Tir (yr Alban) yn rhoi sylfaen ar gyfer datblygu 'model unigryw yng Nghymru'.

Ar sail hynny, argymhellodd y Pwyllgor Deisebau y dylai un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad gynnal ymchwiliad llawn i'r angen am deddfwriaeth newydd.

### **Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad 2010**

Mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Deisebau, cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ymchwiliad i'r mater a barodd 12 mis. Mae ei [adroddiad \(PDF 1379KB\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, yn cynnwys 13 o argymhellion. Er iddo gytuno â'r Pwyllgor Deisebau fod y sefyllfa yn anghynaliadwy a bod angen fframwaith deddfwriaethol newydd, nid oedd yn cefnogi barn y Pwyllgor Deisebau fod Deddf Diwygio Tir (yr Alban) yn fodel addas ar gyfer Cymru.

Argymhellodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd y dylid mabwysiadu deddfwriaeth a fyddai'n pennu 'corff arweiniol' yng Nghymru i fod yn gyfrifol am hwyluso cytundebau gwirfoddol rhwng rhanddeiliaid. Dywedodd hefyd y dylai fod gan y 'corff arweiniol' hwn y grym i fabwysiadu dull gorfodol lle nad oedd cytundeb gwirfoddol yn bosibl. [Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn mewn egwyddor \(PDF 160KB\)](#), gan nodi ei bod am werthuso llwyddiant y dull gwirfoddol cyn penderfynu a oes angen dull gorfodol. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, nid oedd gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath, ond fe gafodd y cymhwysedd hwn yn sgil refferendwm 2011.

Mewn perthynas â Deddf Diwygio Tir (yr Alban), daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'r gwahaniaeth rhwng cyfreithiau tresmasu Cymru a Lloegr a chyfreithiau tresmasu'r Alban yn ei gwneud yn anodd i Gymru fabwysiadu model tebyg i un yr Alban.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-717  
Ein cyf/Our ref LG/06408/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

19 October 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 5 October, regarding the petition to establish statutory public access to land and water – ref: P-05-717.

This latest petition is very similar to one submitted by Canoe Wales (then the Welsh Canoeing Association) in 2009. Then the Committee recommended “a further more wide ranging inquiry be carried out with a view to bringing forward legislation in this area, which would give all stakeholders the opportunity to submit evidence”. The matter then went for consideration by the Sustainability Committee. The Welsh Government has to date followed the recommendations put forward by the latter Committee, including supporting the use of access agreements on inland waters through the Splash funding scheme between 2009 - 2014.

In 2014 the Welsh Government commenced a broad based review of the legislative framework for access and outdoor recreation. This included a series of stakeholder seminars leading to the 2015 consultation on Improving Opportunities to Access the Outdoors for Responsible Recreation.

The consultation paper examined the current legislative framework for access to the outdoors and encouraged discussion on a sliding scale of potential options, including making improvements and removing some of the restrictions in place under current access legislation, extending the definition of access land to include other areas, and implementing an entirely new legislative framework to allow for responsible recreation similar to the system referred to in the petition. The consultation received almost 5800 responses most of which were of the view that the current system is too complex and burdensome.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I agree with the petitioners, we should continue to promote Wales as a welcoming destination for those wanting to participate in recreation, tourism and adventurous activity. There are also significant health and well-being benefits from people participating in outdoor recreation activity or utilising the available access for active travel.

It is clear, from the work done to date and the continuing interest from groups such as Waters of Wales, people are very passionate about the benefits of outdoor recreation and are sensitive to the potential impact on land management and existing users. Careful consideration is, therefore, needed of the many issues raised in the consultation. I remain keen to increase the opportunities available for access to the outdoors and intend to undertake further work to develop proposals which could better support access to the outdoors in Wales.

I intend to set out the scope and timetable for developing reform proposals early next year.

Regards

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



08 November 2016

Dear Petitions Committee Members

**Letter from Lesley Griffiths AM, ref. LG/06408/16**

Thank you for the opportunity to respond to the letter referenced above.

We welcome the Minister's acknowledgement of the benefits of outdoor recreation to the health and well-being of the nation, and to the Welsh economy. However, the process followed to date demonstrates that the wide-ranging benefits will only be truly released and built upon if a Land Reform (Wales) bill is produced.

Regarding the statement that "Welsh Government has to date followed the recommendations put forward by the Sustainability Committee following their subsequent Inquiry"; we should not forget that these recommendations followed an unexplained departure, at a late stage in the proceedings, from the recommendations of the petitions committee.

The Petitions Committee in 2009, informed in the course of its inquiry, by "...a formal meeting in the Scottish Parliament in Edinburgh to take evidence on the effectiveness of the Scottish legislation", concluded:

**"We believe that the mechanisms and processes of the Land Reform (Scotland) Act 2003 go a long way to providing clarity and understanding of the situation within Scotland. At the very least, the Act has effectively established and equalised statutory rights and responsibilities; it has clarified local authority powers and duties; it has created local access forums to facilitate discussion between parties; it has encouraged education to promote awareness and understanding of people's rights and responsibilities; and, importantly, it has led to investment in recreational and**

**environmental capital. We believe that the clear balance of rights in Scotland has inherently moved the access debate forward onto a more productive footing. Parties have been able to “leave behind cul-de-sac positions concerning who has which legal rights on their side”<sup>i</sup> and to develop communication and dialogue over practical management solutions, joint-working arrangements and monitoring. We therefore suggest it provides a useful model for Wales to copy and adapt”<sup>ii</sup>.**

Key points arising from the Petitions Committee’s Inquiry include:

- Before the Act came into being there was an “uneasy balance” between the public not having clear legal rights and landowners or occupiers having very few workable remedies against trespass or irresponsible behaviour.<sup>iii</sup>
- Following a major public consultation before the draft Bill was published in 2001 Scottish Ministers had concluded that the legal difficulties had proved not as great as originally thought.<sup>iv</sup>
- The emphasis of the Act is on local management of access, so it gave the Scottish local authorities and national park authorities, duties and powers to uphold access rights including a duty to plan a comprehensive “Core Paths Plan” system, to employ local officers and to set up Local Access Forums.<sup>v(pp8-9)</sup>

The success of the Land Reform (Scotland) Act can be attributed to its simplicity and comprehensive nature. Codes of conduct are issued to operate within these principles, and management measures are undertaken on an ‘as-needed’, basis, working in the knowledge of clearly defined rights and responsibilities with all parties on an equal footing.

This is in sharp contrast to CRoW, which failed to deliver due to the way it was ‘watered down’ by complex and arbitrary restrictions; and to the process followed by Welsh Government in attempting to negotiate access on a piecemeal basis, location by location and user-group by user group. The piecemeal process cannot work for the long or even medium term, as even if it were possible to draft legislation to cover every existing activity, we cannot know what activities may develop in the future.

Like every other devolved administration before them, Scotland legislated at the first opportunity to clarify and enshrine public rights to the land (including inland water). The Land Reform (Scotland) Act is future-proofed by legislating for the key principles.

The Petitions Committee Report highlights this statement:

**“The Land Reform (Scotland) Act 2003 is “one of the most advanced pieces of access legislation in the whole of Europe and is, by and large, working well.”<sup>vi</sup>(pp8)**

A land reform bill for Wales presents an ideal opportunity for Wales to take its place among the many countries: i.e. almost everywhere, which have legislated in the public interest to enshrine public rights. Land Reform (Wales) will contribute to achieving all the goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act, and will make a particularly significant contribution to ‘A healthier Wales’ and ‘A more equal Wales’.

Along with the Well-being of Future Generations (Wales) Act, a Land Reform (Wales) Act will complement the Environment (Wales) Act and Planning (Wales) Act to sit at the centre of a raft of progressive legislation to secure the long-term well-being of Wales.

Yours sincerely

Pam Bell

On behalf of the Waters of Wales – WoW Community.

contact.watersofwales.org.uk@gmail.com

---

<sup>i</sup> Record of Proceedings column 39, 2 March 2009, Petitions Committee

<sup>ii</sup> Report of the Petitions Committee’s Short Inquiry into Access Along Inland Water, April 2009 pp13

<sup>iii</sup> Rob Garner, Policy Officer with Scottish Natural Heritage, Access to the Countryside for Open-air Recreation, Scottish Natural Heritage’s Advice to Government, 1999, quoted in Report of the Petitions Committee’s Short Inquiry into Access Along Inland Water, April 2009.

<sup>iv</sup> Record of Proceedings column 29, 2 March 2009, Petitions Committee.

<sup>v</sup> Report of the Petitions Committee’s Short Inquiry into Access Along Inland Water, April 2009.

<sup>vi</sup> Record of Proceedings column 18, 2 March 2009, Petitions Committee



## Eitem 2.2

**P-05-720- Deiseb Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn i Osod Band Eang opteg Ffibr yn y Pentref.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cllr James Campell ar ôl casglu 166 llofnod bapur.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, trigolion Penderyn, wedi llofnodi'r ddeiseb isod i fynegi'n dymuniad i gael band eang opteg ffibr yn ein pentref. Byddai'r gwasanaeth hwn yn trawsnewid ein cymuned, yn ein helpu ni fel defnyddwyr i ddefnyddio'r rhyngwyd yn gymdeithasol yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio yn y pentref naill ai mewn busnesau lleol neu sy'n gweithio gartref.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

## Deiseb ynghylch band eang cyflym iawn

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2016

Petitions Committee | 15 November 2016

### Briff ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-720

Teitl y ddeiseb: Deiseb Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn i Osod Band Eang Ffibr Opteg

Testun y ddeiseb: Rydym ni, trigolion Penderyn, wedi llofnodi'r ddeiseb isod i fynegi'n dymuniad i gael band eang opteg ffibr yn ein pentref. Byddai'r gwasanaeth hwn yn trawsnewid ein cymuned, yn ein helpu ni fel defnyddwyr i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn gymdeithasol yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio yn y pentref naill ai mewn busnesau lleol neu sy'n gweithio gartref.

### Cefndir a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae BT wrthi'n cyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru drwy brosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, yr UE a buddsoddiad BT ei hun. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad i'r prosiect hwn i gwmpasu 42,000 o safleoedd ychwanegol: o ganlyniad i hyn, estynnwyd dyddiad cau'r rhaglen i haf 2017.


Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dau gynllun arall i wella argaeledd band eang:

- [Allwedd Band Eang Cymru](#): mae grantiau o hyd at £800 ar gael lle na all y safle gael mynediad at fand eang cyflym ar hyn o bryd;
- [Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt](#): mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau cyflym iawn newydd i fusnesau yng Nghymru

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen manteisio ar fand eang cyflym iawn pum mlynedd gwerth £12.5 miliwn er mwyn helpu busnesau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan fand eang cyflym iawn. Caiff hyn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yr UE, awdurdodau lleol a ffynonellau academaidd a phreifat.

Mae [data diweddaraf Ofcom](#) ar gyfer gwasanaeth band eang (Mehefin 2015) yn dangos, ers 2014 mae gwasanaethau band eang cyflym iawn wedi cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yn unrhyw wlad arall yn y DU:

Figure 1: Coverage of superfast services has improved



Source: Ofcom analysis of operator data

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 2 Tachwedd 2016, cynhaliodd y Ceidwadwyr Cymreig [ddadl yn y Cyfarfod Llawn](#) ar fynediad i fand eang. Dyma'r cynnig diwygiedig fel y'i pasiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni o safbwynt gweithredu cynllun Cyflymu Cymru, sef cynllun sydd wedi galluogi dros 610,000 o eiddo ar draws Cymru i fanteisio ar fand eang cyflym ac a fydd yn galluogi 100,000 o safleoedd ychwanegol i fanteisio arno erbyn i'r prosiect ddod i ben yn 2017.
2. Yn nodi cynnydd Allwedd Band Eang Cymru a'r prosiect a wnaeth ei ragflaenu sydd wedi galluogi dros 6,500 o eiddo ar draws Cymru i fanteisio ar fand eang drwy wahanol dechnolegau arloesol.
3. Yn cydnabod pwysigrwydd band eang cyflym a chysylltedd digidol i fusnesau, cymunedau a'r economi ym mhob rhan o Gymru ac yn nodi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gynnig band eang dibynadwy a chyflym i bob eiddo yng Nghymru.
4. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i:
  - (a) cydweithio ag Ofcom, Llywodraeth y DU a gweithredwyr y rhwydwaith er mwyn cynnig mynediad at fand eang cyflym a signal ffonau symudol ar draws Cymru;
  - (b) diwygio Hawliau Datblygu a Ganiateir o fewn y system gynllunio er mwyn hybu buddsoddiad yn y seilwaith telathrebu ac adleoli'r rhwydwaith;
  - (c) pwyso a mesur yr hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i gyflawni drwy ei chynllun gweithredu ffonau symudol wrth ddatblygu cynigion yng Nghymru; a
  - (d) cyhoeddi rhagor o wybodaeth am estyn mynediad at fand eang dibynadwy a chyflym i bob eiddo yng Nghymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn

yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth  
Minister for Skills and Science



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-720  
Ein cyf/Our ref JJ/05426/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

17 October 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 10 October 2016 regarding the roll out of superfast broadband in Penderyn.

I'm sorry to hear of the frustrations of those who are unable to access superfast broadband. The fact that the petition collected 163 paper signatures clearly demonstrates that this is a matter that the residents of Penderyn feel passionately about.

Officials have checked several addresses in Penderyn and can see that the majority of the village is served by cabinet 2 on the Hirwaun Exchange. The cabinet 2 area is scheduled to be enabled for superfast broadband using a mixture of Fibre to the Property (FTTP) and Fibre to the Cabinet (FTTC) technology.

Those who are scheduled for connectivity using FTTP technology are due to be enabled in Spring 2017. This date is subject to change should any problems be encountered when engineers access the site. The deployment of FTTP technology does sometimes require a greater level of preparation and work by Openreach as it takes a fibre cable from the exchange right into a premise meaning no crossover onto the original copper network.

The remainder of the cabinet 2 area are in scope to be rolled out for superfast broadband using FTTC technology; where fibre optic cables run from the local exchange to roadside cabinets which are, in turn, connected to standard phone lines to provide superfast broadband to premises.

Unfortunately specific dates for roll-out to those premises served by FTTC are difficult to schedule due to each individual premises' distance from an enabled cabinet being the determining factor in level of groundwork required and the speeds achievable.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 46  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In the meantime, as an alternative route to accessing the superfast broadband, the Access Broadband Cymru (ABC) scheme is something that the resident of Penderyn might wish to explore.

